# Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?

asiantaeth cynnal plant

## Casglu gwybodaeth a chyfrifo

# Am beth mae'r daflen hon yn sôn?

Mae'r daflen hon yn egluro sut rydym yn gweithio cynhaliaeth plant allan. Mae'n dweud wrthych am y wybodaeth a'r broses a ddefnyddiwn i wneud y cyfrifiad a beth all effeithio ar y cyfrifiad.

Gallwch weld faint allai cynhaliaeth plant fod yn eich sefyllfa chi drwy ddefnyddio ein cyfrifydd cynhaliaeth plant ar-lein yn **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**. Canllaw yn unig ye'r cyfrifydd, ac ni fyddwn yn cadw unrhyw wybodaeth a ddarparwch wrth ei ddefnyddio.

Yn y daflen hon defnyddiwn rai termau safonol i egluro ein gwasanaethau a sut rydym yn gweithio. Mae'r eirfa ar y diwedd yn egluro'r rhain.

Dim ond gwybodaeth am achosion lle caiff y gynhaliaeth plant ei gweithio allan gan ddefnyddio'r cynllun a ddechreuodd ar 3 Mawrth 2003 sydd yn y daflen hon. Rydym yn galw hwn yn gynllun presennol. Defnyddiwn reolau gwahanol i weithio allan cynhaliaeth plant ar gyfer achosion a sefydlwyd cyn y dyddiad hwn. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**.

## Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cynnwys pob sefyllfa. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau fod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir fel ar 31 Hydref 2009, ond efallai nad yw'n adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith neu ein gweithdrefnau ar ôl y dyddiad hwn. Efallai y byddwch am gael cyngor annibynnol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ariannol yn seiliedig ar y daflen hon.

# Amdanom ni

Yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) yw gwasanaeth cynhaliaeth plant y Llywodraeth. Caiff ei ddarparu gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant.

Ein rôl yw sicrhau bod rhieni sy'n byw ar wahân i'w plant yn cyfrannu'n ariannol at eu cadw drwy dalu cynhaliaeth plant.

Rydym yn defnyddio proses safonol i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sydd angen ei dalu ym mhob achos ac wedyn yn rheoli'r taliadau. Gallwn hefyd gymryd camau cyfreithiol i wneud yn siŵr bod y swm cywir yn cael ei dalu ar yr amser iawn.

Am fwy o help a gwybodaeth, ewch i'n gwefan **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk** neu ffoniwch ni ar **0845 713 3133** neu **0845 713 8924** (ffôn testun). Neu gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091**. Ewch i dudalen 41 am fanylion am gostau galwadau ac amseroedd agor.

Os ydych am wneud trefniadau preifat ar gyfer cynhaliaeth plant, yn hytrach na drwy'r CSA, cysylltwch ag Opsiynau Cynhaliaeth Plant am wybodaeth ddiduedd a chymorth. Ewch i'w gwefan yn **www.cmoptions.org** neu gallwch eu ffonio ar **0800 988 0988** neu **0800 988 9888** (ffôn testun). Gallwch ofyn am gael siarad Cymraeg.

# Cynnwys

Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan? 8

Beth fydd yn digwydd os oes gan y rhiant dibreswyl blant eraill yn byw gyda hwy? 17

Beth fydd yn digwydd os bydd plentyn yn aros dros nos gyda'r ddau riant? 20

Beth fydd yn digwydd os yw'r rhiant â gofal yn cael budd-daliadau? 23

Beth fydd yn digwydd os bydd gan y rhiant â gofal hawl i gael cynhaliaeth plant ar gyfer plant gan wahanol rieni dibreswyl? 24

Beth fydd yn digwydd os bydd y rhiant dibreswyl yn hunangyflogedig? 25

Beth fydd yn digwydd os bydd yn rhaid i riant dibreswyl dalu cynhaliaeth i fwy nag un rhiant â gofal? 26

Beth fydd yn digwydd os bydd y rhiant dibreswyl yn gwrthod rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y CSA i weithio cynhaliaeth plant allan? 28

A oes unrhyw ffactorau eraill y gallai'r CSA eu hystyried? 30

Beth fydd yn digwydd os bydd y rhiant dibreswyl yn rhoi arian i'r rhiant â gofal am unrhyw reswm arall? 36

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad y CSA? 37

Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sy'n rhaid i mi ddweud wrth y CSA amdanynt? 39

Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth? 41

# Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?

Wrth drefnu cynhaliaeth plant, defnyddiwn wybodaeth a roddir i ni gan y ddau riant er mwyn penderfynu os oes rhaid i rywun dalu cynhaliaeth plant, a gweithio allan faint o gynhaliaeth plant ddylai gael ei dalu. Gallwn hefyd ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyflogwr y rhiant dibreswyl neu Gyllid a Thollau EM.

Rydym yn gweithio cynhaliaeth plant allan drwy gymhwyso un o'n 4 cyfradd i 'incwm net wythnosol' y rhiant dibreswyl. Mae incwm yn golygu enillion, arian o bensiwn galwedigaethol neu bersonol, ambell fudd-dal, ac mewn rhai amgylchiadau, credydau treth. Incwm wythnosol net yw'r swm o incwm sy'n weddill gennych ar ôl talu pethau fel treth incwm, Yswiriant Gwladol a chyfraniadau i gynllun pensiwn. Os sefydlwyd y cynllun pensiwn i orffen talu morgais, dim ond 75% o'r arian a delir i mewn i'r cynllun a ellir ei gymryd allan o'ch incwm gros (cyfanswm incwm). Felly mae'ch incwm wythnosol net yn cynnwys 25% o unrhyw gyfraniad pensiwn sy'n gysylltiedig â morgais.

Y pedair cyfradd rydym yn eu cymhwyso i incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl yw:

- cyfradd sylfaenol (os oes ganddynt incwm o £200 yr wythnos neu fwy) – ewch i dudalen 10
- cyfradd is (os yw eu hincwm yn fwy na £100 a llai na £200 yr wythnos) – ewch i dudalen 12
- cyfradd unffurf (os yw eu hincwm rhwng £5 a £100 yr wythnos) – ewch i dudalen 14
- cyfradd sero (os yw eu hincwm yn llai na £5 yr wythnos) – ewch i dudalen 16.

Mae ffactorau eraill, fel os bydd rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael budd-daliadau, yn gallu effeithio ar ba gyfradd sy'n gymwys.

Yr incwm wythnosol net uchaf y gallwn ei ddefnyddio i weithio allan cynhaliaeth plant yw £2,000. Os yw incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl yn fwy na £2,000, gall y rhiant â gofal wneud cais i'r llys am gynhaliaeth ychwanegol. Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**

## Beth yw cynhaliaeth plant?

Mae cynhaliaeth plant yn help ariannol tuag at gostau byw'r plentyn o ddydd i ddydd ac sy'n rheolaidd a dibynadwy. Mae'r rhiant sydd ddim yn brif ofalwr dyddiol y plentyn (y rhiant dibreswyl) yn talu cynhaliaeth plant i'r rhiant sydd yn brif ofalwr dyddiol y plentyn (y rhiant â gofal). Mewn rhai achosion, gall y person hwn fod yn nain neu daid, neu'n warcheidwad.

Gall pethau eraill hefyd effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid i riant dibreswyl ei dalu, eglurir y rhain nes ymlaen, sef:

- y nifer o blant sy'n byw gyda hwy
- y nifer o blant sydd angen iddynt dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer
- os yw'r plentyn yn aros dros nos gyda hwy am o leiaf un noson yr wythnos
- os ydynt hwy neu'r rhiant â gofal yn cael budd-daliadau.

## Cyfradd sylfaenol

Os bydd gan y rhiant dibreswyl incwm wythnosol net o £200 neu fwy, rydym yn defnyddio'r gyfradd sylfaenol i weithio allan faint o gynhaliaeth plant fydd rhaid iddynt ei dalu.

Gallwn addasu'r gynhaliaeth plant yn seiliedig ar:

- y nifer o blant sy'n byw gyda'r rhiant dibreswyl y maent hwy neu eu partner yn cael Budd-dal Plant ar eu cyfer, a'r
- nifer o blant y mae angen i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer.

Ewch i dudalen 20 am fwy o wybodaeth ynghylch pryd y gallwn addasu cynhaliaeth plant.

Os bydd y plentyn yn aros dros nos yn rheolaidd gyda'r rhiant dibreswyl, gallai effeithio ar y gynhaliaeth plant. Ewch i dudalen 20 am fwy o wybodaeth.

Os bydd yn rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar gyfer:

- un plentyn, bydd yn rhaid iddynt dalu 15% o'u hincwm wythnosol net
- 2 blentyn, bydd yn rhaid iddynt dalu 20% o'u hincwm wythnosol net
- 3 phlentyn neu fwy, bydd yn rhaid iddynt dalu 25% o'u hincwm wythnosol net.

Mae hyn yn golygu os oes gan y rhiant dibreswyl incwm o £200 yr wythnos, byddai'n rhaid iddynt dalu:

- £30 ar gyfer un plentyn
- £40 ar gyfer 2 blentyn, neu
- £50 ar gyfer 3 phlentyn neu fwy.

## Enghraifft

Mae Tony a Sue wedi ysgaru ac mae ganddynt ddau o blant, sy'n byw gyda Sue.

Rydym yn gweithio allan faint y mae'n rhaid i Tony ei dalu fel a ganlyn:

Incwm wythnosol net Tony yw: £220

Oherwydd bod incwm net Tony yn **fwy na £200 yr wythnos** a bod ganddo **2 o blant** i'w cynnal, bydd yn rhaid iddo dalu 20% o'i incwm wythnosol net fel cynhaliaeth plant.

20% o £220 yw £44

**Mae'n rhaid i Tony dalu: £44 yr wythnos.**

## Cyfradd is

Os bydd incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl yn fwy na £100, ond yn llai na £200, byddwn yn defnyddio'r gyfradd is i weithio allan faint o gynhaliaeth plant fydd rhaid iddynt ei dalu.

Mae'r rhiant dibreswyl yn talu:

- swm safonol o £5, a
- canran o'u hincwm wythnosol net dros £100.

Nodir hyn yn y tabl isod.

| **Y nifer o blant sydd angen cynhaliaeth plant** | **Swm safonol** | **Canran o incwm wythnosol net dros £100 yr wythnos, ond llai na £200, y mae rhiant dibreswyl yn ei thalu** |
|---|---|---|
| 1 | £5, a | 25% |
| 2 | £5, a | 35% |
| 3 neu fwy | £5, a | 45% |

Mae'r ganran a ddefnyddiwn yn dibynnu ar:

- y nifer o blant sy'n byw gyda'r rhiant dibreswyl y maent hwy neu eu partner yn cael Budd-dal Plant ar eu cyfer, a'r
- nifer o blant y mae angen i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer.

Ewch i dudalen 17 am fwy o wybodaeth.

## Enghraifft

Mae Tyrone a Pauline wedi ysgaru ac mae ganddynt 2 o blant, sy'n byw gyda Tyrone. Rydym yn gweithio allan faint y mae'n rhaid i Pauline ei dalu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Incwm wythnosol net Pauline yw: | £180 |
| Mae Pauline yn talu swm safonol o £5 am ei £100 cyntaf: | £5 |
| Ei hincwm wythnosol net dros £100 yw: | £80 |

Oherwydd bod yn rhaid i Pauline dalu cynhaliaeth plant ar gyfer 2 o blant, mae'n talu 35% o'i hincwm wythnosol net dros £100.

| | |
|---|---|
| 35% o £80 yw | £28 |
| £28 + £5 yw: | £33 |
| **Mae'n rhaid i Pauline dalu:** | **£33 yr wythnos.** |

Os bydd y plentyn yn aros dros nos yn rheolaidd gyda'r rhiant dibreswyl, gallai effeithio ar y gynhaliaeth plant. Gweler tudalen 20 am fwy o wybodaeth.

## Cyfradd unffurf

Y gyfradd unffurf yw £5 – waeth faint o blant sydd dan sylw.

Bydd y rhiant dibreswyl yn talu cyfradd unffurf ar gyfer cynhaliaeth plant os:

- yw eu hincwm wythnosol net rhwng £5 a £100
- ydynt hwy neu eu partner sy'n byw gyda hwy yn cael budd-dal sy'n ymwneud ag incwm (sef Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth), a Chredyd Pensiwn, neu
- ydynt yn cael budd-daliadau penodol fel y rhai a restrir isod.
  - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
  - Pensiwn y Wladwriaeth
  - Budd-dal Analluogrwydd
  - Lwfans Hyfforddi
  - taliadau Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog
  - Pensiwn Rhyfel, a
  - Lwfans Profedigaeth.

Ewch i **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk** i gael rhestr lawn o'r budd-daliadau sy'n gymwys.

Os yw'r rhiant dibreswyl yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, byddwn fel arfer yn cymryd y gynhaliaeth plant yn uniongyrchol o'r budd-dal neu'r Credyd Pensiwn. Os bydd partner y rhiant dibreswyl yn cael budd-dal sy'n ymwneud ag incwm neu Gredyd Pensiwn, byddwn yn cymryd cynhaliaeth plant o'r budd-dal cyn y caiff ei dalu i'r partner. Felly bydd y rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael llai o fudd-dal.

Gall y rhiant â gofal wneud cais i gynyddu swm y gynhaliaeth plant os bydd y rhiant dibreswyl:

- yn talu'r gyfradd unffurf oherwydd eu bod yn cael budd-daliadau penodol, ond
- bod ganddynt incwm wythnosol arall o fwy na £100 y byddem yn ei ystyried fel arfer.

Ewch i dudalen 33 am fwy o fanylion.

## Cyfradd sero

Golyga'r gyfradd sero nad oes rhaid i rieni dibreswyl dalu unrhyw gynhaliaeth plant. Gellir cymhwyso'r gyfradd hon os ydynt:

- gydag incwm wythnosol net o lai na £5 yr wythnos
- yn fyfyrwyr mewn addysg llawn amser (yn dilyn cwrs mewn ysgol neu goleg cydnabyddedig lle maent yn cael o leiaf 12 awr o hyfforddiant yr wythnos)
- o dan 16 oed (ac felly yn blant eu hunain at ddibenion cynhaliaeth plant)
- yn y carchar, neu
- yn byw mewn cartref gofal neu ysbyty annibynnol (neu wasanaethau cyfatebol yn yr Alban), ac yn cael help gyda'r ffioedd.

Yn y sefyllfaoedd hyn, gall y rhiant â gofal wneud cais am gynnydd mewn cynhaliaeth plant os bydd gan y rhiant dibreswyl incwm wythnosol arall o fwy na £100 y byddem yn ei ystyried fel arfer wrth weithio cynhaliaeth plant allan.

Os bydd gan y rhiant dibreswyl incwm wythnosol o lai na £5, ni fydd yn rhaid iddynt dalu cynhaliaeth plant ac **ni all** y rhiant â gofal wneud cais am gynnydd. Ewch i dudalen 33 am fwy o fanylion.

# Beth fydd yn digwydd os oes gan y rhiant dibreswyl blant eraill yn byw gyda hwy?

Os yw'r rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plant eraill sy'n byw gyda hwy, a'u bod naill ai'n talu'r gyfradd sylfaenol neu'r gyfradd is, byddant fel arfer yn talu llai o gynhaliaeth plant.

Mae hyn oherwydd y bydd angen iddynt dalu am ofal y plant sy'n byw gyda hwy hefyd. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant fydd rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu yn seiliedig ar **ran** o'u hincwm wythnosol net, yn hytrach na'u hincwm wythnosol net i gyd.

## Os bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r gyfradd sylfaenol

Os bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r gyfradd sylfaenol, ni fyddwn yn ystyried y canlynol:

- 15% o'u hincwm wythnosol net os oes un plentyn yn byw gyda hwy
- 20% o'u hincwm wythnosol net os oes 2 o blant yn byw gyda hwy, neu
- 25% o'u hincwm wythnosol net os oes 3 phlentyn neu fwy yn byw gyda hwy.

## Os bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r gyfradd is

Os bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r gyfradd is, byddwn yn defnyddio'r tabl isod i weithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylent ei dalu.

| **Y nifer o blant sydd angen cynhaliaeth plant** | **Y nifer o blant sy'n byw gyda'r rhiant dibreswyl** | **Swm safonol** | **Canran o incwm wythnosol net dros £100 yr wythnos, ond llai na £200 yr wythnos, y mae rhiant dibreswyl yn ei thalu:** |
|---|---|---|---|
| 1 | 1 | £5 a | 20.5% |
| | 2 | £5 a | 19% |
| | 3 neu fwy | £5 a | 17.5% |
| 2 | 1 | £5 a | 29% |
| | 2 | £5 a | 27% |
| | 3 neu fwy | £5 a | 25% |
| 3 neu fwy | 1 | £5 a | 37.5% |
| | 2 | £5 a | 35% |
| | 3 neu fwy | £5 a | 32.5% |

## Enghraifft

Mae John a Sandra wedi ysgaru ac mae ganddynt 2 o blant, sy'n byw gyda Sandra. Mae John bellach yn byw gyda Mandy a'u mab bach.

Rydym yn gweithio allan faint y mae'n rhaid i John ei dalu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Incwm wythnosol net John yw: | £180 |
| O'r £100 cyntaf, mae John yn talu swm safonol o: | £5 |
| Ei incwm wythnosol net dros £100 yw: | £80 |

Oherwydd bod John yn gorfod talu cynhaliaeth plant ar gyfer **2 o blant**, ond bod ganddo **un plentyn** yn byw gydag ef, mae'n talu **29%** o'i incwm wythnosol net dros £100.

| | |
|---|---|
| 29% o £80 yw: | £23.20 |
| £23.20 + £5 yw: | £28.20 |

Rydym yn talgrynnu cynhaliaeth plant i fyny neu i lawr at y bunt gyfan agosaf.

**Mae'n rhaid i John dalu: £28 yr wythnos.**

# Beth fydd yn digwydd os bydd y plentyn yn aros dros nos gyda'r ddau riant?

Os bydd y plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl am o leiaf un noson yr wythnos ar gyfartaledd (o leiaf 52 noson y flwyddyn) gelwir hyn yn 'rhannu gofal'. Yn yr achosion hyn, gallwn leihau faint sy'n rhaid i riant dibreswyl dalu, cyn belled â'n bod yn defnyddio'r **gyfradd sylfaenol neu'r gyfradd is** er mwyn gweithio allan faint sy'n ddyledus bob wythnos.

Os ydych yn rhannu'r gofal am eich plentyn gyda'r rhiant arall, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn ystyried hyn wrth weithio allan y swm newydd o gynhaliaeth plant. Rydym angen gwybod y nifer o nosweithiau ar gyfartaledd mae'r plentyn yn eu treulio yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl bob wythnos.

Pan fydd rhieni'n rhannu'r gofal am eu plant, byddwn yn gweithio allan swm dyddiol o gynhaliaeth plant (sef, fel arfer, 1/7 o'r swm wythnosol sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu). Er enghraifft, os oes rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant o £70 yr wythnos, mae hynny'n gweithio allan fel £10 y dydd (sef £70 wedi ei rannu â 7).

Yna byddwn yn tynnu'r swm dyddiol hwn oddi ar y cyfanswm wythnosol ar gyfer bob diwrnod bydd y plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl.

## Enghraifft

Mae gan Gary a Jane 2 o blant. Rhaid i Gary dalu cynhaliaeth plant wythnosol o £70.

Y swm dyddiol o gynhaliaeth plant yw £70 ÷ 7 £10

Mae ei blant yn aros gydag ef am 2 noson yr wythnos £10 × 2 £20

Gellir lleihau'r gynhaliaeth plant £20 yr wythnos
£70 – £20

Golyga hyn bod yn rhaid i Gary dalu cynhaliaeth plant o **£50** yr wythnos.

Os rhennir y gofal am blentyn yn gyfartal rhwng dau riant, rydym yn:

- haneru'r swm wythnosol o gynhaliaeth, a
- lleihau'r gynhaliaeth eto – £7 yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae'r £7 hwn wedi ei osod yn y gyfraith.

Yn yr amgylchiadau hyn, y rhiant sy'n cael y Budd-dal Plant a elwir yn rhiant â gofal.

## Enghraifft

Mae Gary a Jane yn newid eu trefniadau ac yn penderfynu rhannu'r gofal am eu 2 o blant yn gyfartal.

Mae'r swm wythnosol o gynhaliaeth plant dal yn £70.

£70 ÷ 2 £35

Tynnir £7 am bob plentyn. £14

Felly gallwn leihau'r swm wythnosol:
£35 + £14 £49

Tynnir hyn o'r gynhaliaeth wythnosol:
£70 – £49

Golyga hyn bod yn rhaid i Gary dalu cynhaliaeth plant o **£21** yr wythnos.

Mewn achosion cyfradd sylfaenol neu gyfradd is, bydd y rhiant dibreswyl bob tro'n talu o leiaf £5 yr wythnos, waeth am yr addasiadau am rannu gofal.

## Cyfradd unffurf

Os gosodir cynhaliaeth plant ar y gyfradd unffurf am fod y rhiant dibreswyl yn cael budd-daliadau, hawliau a lwfansau a restrir ar dudalen 14, yna, bydd rhannu gofal am o leiaf 52 noson y flwyddyn yn lleihau eu cynhaliaeth plant i ddim.

## Beth fydd yn digwydd os yw'r rhiant â gofal yn cael budd-daliadau?

Os ydych chi neu eich partner yn hawlio budd-daliadau yn ymwneud ag incwm (sef Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm) neu Gredyd Pensiwn a'ch bod hefyd yn cael cynhaliaeth plant, **efallai** na fyddwch yn cael swm llawn eich budd-daliadau.

Anelwn at drosglwyddo'r swm llawn o gynhaliaeth plant i chi o fewn wythnos o'i gael gan y rhiant dibreswyl. Bydd y rhiant â gofal yn cael cadw'r £20 cyntaf o gynhaliaeth plant a delir cyn i hynny gael ei gyfrif fel incwm allai effeithio ar y cais am fudd-daliadau.

Os ydych yn cael cynhaliaeth plant yn uniongyrchol gan y rhiant dibreswyl ac rydych chi neu'ch partner yn cael budd-dal yn ymwneud ag incwm, mae'n **rhaid** i chi ddweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith. Byddant wedyn yn ystyried eich cynhaliaeth plant wrth wneud trefniadau i dalu eich budd-daliadau.

# Beth fydd yn digwydd os bydd gan y rhiant â gofal hawl i gael cynhaliaeth plant ar gyfer plant gan wahanol rieni dibreswyl?

Gall rhiant â gofal wneud cais i ni am gynhaliaeth plant gan fwy nag un rhiant dibreswyl. Yn yr achosion hyn, byddwn yn gweithio allan y swm fydd rhaid i bob rhiant dibreswyl ei dalu ar wahân.

## Enghraifft

Mae gan Vicky 3 o blant. Mark yw rhiant dibreswyl ei merch, a Chris yw rhiant dibreswyl ei 2 fab.

Rydym yn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant y mae Vicky yn ei gael fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Mae Mark yn talu cynhaliaeth plant i Vicky o: (**15%** o'i incwm wythnosol net o £220) | £33 yr wythnos |
| Mae Chris yn talu cynhaliaeth plant i Vicky o: (**20%** o'i incwm wythnosol net o £250) | £50 yr wythnos |
| £33 + £50 yw: | £83 |

Mae Vicky yn cael £83 yr wythnos o gynhaliaeth plant.

# Beth fydd yn digwydd os bydd y rhiant dibreswyl yn hunangyflogedig?

Os yw rhiant dibreswyl yn hunangyflogedig, mae'n rhaid iddynt dalu cynhaliaeth plant yn yr un ffordd ag unrhyw riant dibreswyl arall. Byddwn yn gweithio allan y swm fydd rhaid iddynt ei dalu yn seiliedig ar eu hincwm wythnosol net a'r nifer o blant y maent yn talu cynhaliaeth plant ar eu cyfer. Yr unig wahaniaeth yw'r ffordd rydym yn cyfrifo incwm.

## Sut mae'r CSA yn gweithio enillion o hunangyflogaeth allan?

Os yw'r rhiant dibreswyl yn hunangyflogedig, byddwn yn gweithio allan ei enillion wythnosol ar gyfartaledd o'r flwyddyn dreth ddiweddaraf. Os na allwn, er enghraifft, os mai newydd ddechrau gwaith hunangyflogedig mae'r rhiant dibreswyl, rydym yn defnyddio manylion incwm gros y busnes – mae hyn yn golygu'r holl arian mae wedi ennill. I gyfrifo enillion, byddwn yn tynnu o incwm gros y busnes:

- unrhyw dreuliau rhesymol a delir i redeg y busnes (heb gynnwys gwariant cyfalaf neu dreuliau adloniant y busnes), a
- TAW (treth ar werth).

Unwaith y byddwn wedi cyfrifo enillion y rhiant dibreswyl, rydym yn cyfrifo eu hincwm wythnosol net yn yr un modd ag a ddisgrifir ar dudalen 8.

## Beth fydd yn digwydd os bydd yn rhaid i riant dibreswyl dalu cynhaliaeth i fwy nag un rhiant â gofal?

Os ydych yn rhiant dibreswyl ac rydych yn talu cynhaliaeth plant i fwy nag un rhiant â gofal drwom ni, byddwn yn gweithio cyfanswm y gynhaliaeth plant allan sydd raid i chi ei dalu drwom ni. Rydym yn rhannu allan y cyfanswm yn gyfartal i sicrhau bod yr un swm yn cael ei dalu am bob plentyn. Gallwch wneud taliadau o'r cyfanswm trwom ni a byddwn yn pasio'r swm cywir ymlaen i bob rhiant â gofal, neu gallwch dalu pob rhiant â gofal yn uniongyrchol.

Weithiau, bydd rhiant dibreswyl yn talu cynhaliaeth plant i un neu fwy o rieni â gofal drwom ni, a hefyd i un neu fwy o rieni â gofal drwy gytundebau preifat. Yn y sefyllfa hon, ni allwn gymryd faint o gynhaliaeth plant rydych yn ei dalu drwy gytundebau preifat i ystyriaeth wrth weithio allan faint o gynhaliaeth plant sydd yn rhaid ei dalu drwom ni. Ond os oes gennych gytundeb llys yn cynnwys cynhaliaeth plant, gallwn gymryd hyn i ystyriaeth.

## Enghraifft

Mike yw rhiant dibreswyl merch Ruth. Ef yw rhiant dibreswyl 2 fab Jill hefyd. Rhaid i Mike dalu cynhaliaeth plant trwy'r CSA ar gyfer 3 phlentyn.

Rydym yn gweithio allan faint y mae'n rhaid i Mike ei dalu fel a ganlyn.

Incwm wythnosol net Mike yw: £360

Oherwydd bod incwm Mike **dros £200 yr wythnos**, mae'n talu'r gyfradd sylfaenol.

Mae ganddo **3 o blant** i'w cynnal felly mae'n rhaid iddo dalu **25%** o'i incwm wythnosol net fel cynhaliaeth plant.

25% o £360 yw: £90

Yna caiff y swm hwn ei rannu rhwng Ruth a Jill yn ôl y nifer o blant sy'n byw gyda nhw.

Mae Ruth yn cael un rhan o dair: £90 x ⅓ yw: £30

Mae Jill yn cael dwy ran o dair: £90 x ⅔ yw: £60

Mae Mike yn talu £30 yr wythnos ar gyfer cynhaliaeth plant i Ruth a £60 yr wythnos i Jill.

# Beth fydd yn digwydd os bydd y rhiant dibreswyl yn gwrthod rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen gan y CSA i weithio cynhaliaeth plant allan?

Os na fydd y rhiant dibreswyl yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio cynhaliaeth plant allan, ac nad yw cyrff eraill yn gallu darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, gallwn gymryd camau eraill i ddechrau cael taliadau cynhaliaeth plant. Er enghraifft, gallwn gymhwyso cyfradd yn seiliedig ar y nifer o blant sydd raid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer. Gelwir hyn yn '**benderfyniad cynhaliaeth ddiffyg**'. Mae'r gyfradd ddiffyg yn gymwys o'r dyddiad pryd byddai'r cyfrifiad cynhaliaeth plant wedi dod i rym.

Y cyfraddau diffyg yw:

- £30 yr wythnos ar gyfer un plentyn
- £40 yr wythnos ar gyfer 2 blentyn, a
- £50 yr wythnos ar gyfer 3 phlentyn neu fwy.

Pan fydd y rhiant dibreswyl yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud cyfrifiad yn y dyfodol, byddwn yn gweithio allan faint sydd raid iddynt ei dalu. Bydd rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu'r swm llawn o gynhaliaeth plant rydym wedi gweithio allan o'r dyddiad daeth y penderfyniad cynhaliaeth ddiffyg i rym.

Gallai hyn olygu bydd y rhiant dibreswyl ddim yn unig yn gorfod talu swm uwch o gynhaliaeth plant o hynny ymlaen, ond hefyd talu swm ychwanegol o gynhaliaeth plant i wneud i fyny am y swm y dylent fod wedi talu cyn i ni weithio allan y swm llawn.

## Beth fydd yn digwydd os bydd y rhiant â gofal yn gwrthod rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen gan y CSA i weithio cynhaliaeth plant allan?

Os na fydd y rhiant â gofal yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio cynhaliaeth plant allan, gallwn gau'r achos ac ni fydd y rhiant â gofal yn cael cynhaliaeth plant.

Mae'n drosedd os yw person yn:

- methu â rhoi gwybodaeth i ni pan rydym yn gofyn amdani, neu'n
- rhoi gwybodaeth i ni y maent yn gwybod ei bod yn ffug.

Os cânt eu dyfarnu'n euog, gallant gael dirwy o hyd at £1,000.

# A oes unrhyw ffactorau eraill y gallai'r CSA eu hystyried?

Gall y rhiant dibreswyl neu'r rhiant â gofal ofyn i ni gymryd ffactorau eraill i ystyriaeth wrth weithio allan cynhaliaeth plant os credant y gallai'r ffactorau hyn effeithio ar y cyfrifiad. Gelwir hyn yn 'gwneud cais am amrywiad'.

## Pa ffactorau y gallwn eu hystyried ar gyfer rhieni dibreswyl?

Os ydych yn rhiant dibreswyl, gallwn edrych ar swm y gynhaliaeth plant eto os oes gennych dreuliau arbennig o fwy na £10 yr wythnos, neu £15 os bydd eich incwm yn £200 neu fwy, ar gyfer:

- cadw mewn cysylltiad â'ch plant (er enghraifft, os bydd y rhiant â gofal wedi symud ymhell i ffwrdd)
- cynnal plant sy'n byw gyda chi sydd ag anableddau neu salwch hirdymor (yn yr achos hwn, os bydd y treuliau arbennig yn llai na £10 – £15 yr wythnos os yw'ch incwm yn £200 neu fwy – efallai y byddwn dal yn eu hystyried)
- ad-dalu dyled a drefnwyd gennych cyn i chi wahanu oddi wrth y rhiant â gofal, a bod y ddyled er budd y teulu neu aelod o'r teulu
- talu ffioedd ysgol breswyl ar gyfer plant rydych yn talu cynhaliaeth plant ar eu cyfer (dim ond costau byw o ddydd i ddydd neu ran 'breswyl' y ffioedd y byddwn yn eu hystyried), neu

- gwneud taliadau ar forgais, benthyciad neu bolisi yswiriant i ad-dalu morgais neu fenthyciad ar y cartref yr oeddech chi a'r rhiant â gofal yn arfer ei rannu. Mae'n rhaid bod y rhiant â gofal a'r plant yn byw yn y tŷ o hyd ac nad oes unrhyw fudd cyfreithiol gennych ynddo.

Gallwn hefyd newid swm y gynhaliaeth plant os gwnaethoch drosglwyddo eiddo neu arian i'r rhiant â gofal fel **rhan o setliad gorchymyn llys** neu gytundeb cynhaliaeth ysgrifenedig a wnaed cyn **5 Ebrill 1993**. Mae'n rhaid bod yr **eiddo** neu'r **arian** a drosglwyddwyd wedi gostwng swm y gynhaliaeth plant a wnaed o dan y gorchymyn llys neu'r cytundeb cynhaliaeth ysgrifenedig. Mae'n rhaid bod gwerth eich cyfran o'r eiddo neu'r arian a drosglwyddwyd, ar ôl didynnu unrhyw forgais neu fenthyciad nas talwyd, yn £5,000 neu fwy.

Yn gyffredinol, nid ydym yn ystyried unrhyw arian rydych yn ei dalu fel cynhaliaeth plant i rieni â gofal eraill o dan gytundebau preifat.

## Pa ffactorau y gallwn eu hystyried ar gyfer rhieni â gofal?

Os mai chi yw'r rhiant â gofal, efallai y byddwn yn edrych ar swm y gynhaliaeth plant eto o dan yr amgylchiadau canlynol.

- Os bydd gan y rhiant dibreswyl asedau (arian neu eiddo) sydd werth mwy na £65,000. O ran eiddo, hwn yw'r gwerth ar ôl didynnu unrhyw forgais nas talwyd sy'n ddyledus o hyd. Nid yw asedau yn cynnwys y cartref y mae'r rhiant dibreswyl yn byw ynddo neu asedau y maent yn eu defnyddio ar gyfer eu busnes, ond gallai gynnwys eiddo y maent yn ei rentu allan.

- Os yw'r rhiant dibreswyl yn talu'r gyfradd unffurf neu'r gyfradd sero ar hyn o bryd ond bod ganddynt incwm wythnosol arall o fwy na £100, byddwn fel arfer yn ystyried hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol os yw'r rhiant dibreswyl yn talu'r gyfradd unffurf oherwydd eu bod yn cael budd-dal yn ymwneud ag incwm, neu Gredyd Pensiwn, neu eu bod yn talu'r gyfradd sero oherwydd bod eu hincwm yn llai na £5 yr wythnos.
- Os yw'r rhiant dibreswyl yn rheoli eu hincwm ac yn cael incwm o fwy na £100 yr wythnos gan gwmni neu fusnes (er enghraifft, incwm a dderbyniwyd gan gyfarwyddwyr cwmni fel difidendau).
- Os yw'r rhiant dibreswyl wedi gostwng swm yr incwm y gallwn ei ystyried drwy ei ddargyfeirio i rywun arall at ddiben arall (er enghraifft, i mewn i fusnes).
- Os ymddengys bod gan y rhiant dibreswyl ffordd o fyw sy'n gysylltiedig â rhywun sydd ag incwm llawer uwch na'r incwm a ddefnyddiwyd gennym i weithio'r gynhaliaeth allan.

Os bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r gyfradd unffurf neu'r gyfradd sero ar hyn o bryd, oherwydd eu bod yn cael un o'r budd-daliadau a restrir ar dudalen 14, efallai y byddwn hefyd yn edrych ar y cyfrifiad eto os bydd ganddynt incwm arall o fwy na £100 yr wythnos. Rhaid i hwn fod yn incwm y byddem fel arfer yn ei ystyried wrth weithio cynhaliaeth plant allan.

## Beth fydd yn digwydd pan ofynnir i ni ystyried ffactorau eraill?

Pan fydd un rhiant yn gofyn i ni gymryd ffactorau eraill i mewn i ystyriaeth, rydym yn gofyn iddynt ddweud wrthym pam maent yn credu y dylai'r swm o gynhaliaeth plant newid.

Byddwn fel arfer yn anfon y manylion hyn at y rhiant arall. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt roi eu barn i ni. Bydd hefyd yn caniatáu i ni gael gwybodaeth gan bawb sy'n gysylltiedig â'r achos. Yna gallwn wneud penderfyniad o ran pa un a ddylem newid swm y gynhaliaeth ai peidio.

## Beth fydd yn digwydd i fy nghynhaliaeth plant?

Gall eich cais gynyddu neu ostwng swm y gynhaliaeth plant sy'n ddyledus i'w dalu neu efallai na fydd yn newid o gwbl.

## Pryd na all y CSA newid cynhaliaeth plant?

Ni fyddwn fel arfer yn newid cynhaliaeth plant os bydd y rhiant dibreswyl yn gofyn i ni wneud hynny **ac**:

- eu bod hwy neu eu partner yn cael budd-dal yn ymwneud ag incwm neu Gredyd Pensiwn
- eu bod hwy neu eu partner wedi cael eu hasesu fel rhywun sy'n talu cynhaliaeth plant ar gyfradd unffurf neu gyfradd sero, neu
- ein bod wedi gwneud penderfyniad cynhaliaeth ddiffyg (ewch i dudalen 28).

Hefyd, nid ydym fel arfer yn newid y gynhaliaeth plant os yw'r rhiant â gofal yn gofyn i ni wneud hynny **a**:

- bod y rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael budd-dal yn ymwneud ag incwm neu Gredyd Pensiwn
- bod y rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael Credyd Treth Gwaith
- bod gan y rhiant dibreswyl incwm o fwy na £2,000 yr wythnos, neu
- ein bod wedi gwneud penderfyniad cynhaliaeth ddiffyg (ewch i dudalen 28).

Yn olaf, ni fydd cynhaliaeth plant yn newid os oes gan y rhiant dibreswyl dreuliau ar gyfer cyfnodau pan mae'r plentyn yn aros dros nos gyda hwy, ond bod y gynhaliaeth plant eisoes wedi'i gostwng i ystyried yr achlysuron hyn o aros dros nos.

## Pryd dylwn i ddweud wrthych am unrhyw un o'r ffactorau hyn?

Dylech ddweud wrthym am unrhyw un o'r ffactorau cyn i ni weithio'r gynhaliaeth plant allan.

Os ydym eisoes wedi dweud wrthych faint yw eich cynhaliaeth plant, cysylltwch â ni ar unwaith. Os byddwn yn penderfynu gostwng neu gynyddu eich taliad, gallai ddechrau ar yr un dyddiad ag y dechreuodd eich cynhaliaeth plant. Gall hyn ddigwydd os ydych yn dweud wrthym am ffactorau eraill o fewn mis o gael gwybod faint yw eich cynhaliaeth plant.

Os byddwch yn dweud wrthym am unrhyw un o'r ffactorau hyn ar ôl mis i ni ddweud wrthych pryd bydd eich cynhaliaeth plant yn dechrau, bydd unrhyw newid yn debygol o ddechrau o'r wythnos rydym yn derbyn eich gwybodaeth am y ffactorau eraill.

## Beth fydd yn digwydd os bydd y rhiant dibreswyl yn rhoi arian i'r rhiant â gofal am unrhyw reswm arall?

Mewn rhai achosion, bydd rhiant dibreswyl sydd fel arfer yn talu cynhaliaeth plant drwom ni yn cytuno i dalu arian naill ai yn uniongyrchol i'r rhiant â gofal, neu ar eu cyfer, oherwydd rheswm penodol. Os byddant yn gwneud hyn, gallant ofyn i ni ystyried y taliad hwn tuag at swm y gynhaliaeth plant sy'n rhaid iddynt ei dalu neu unrhyw ôl-ddyledion sydd arnynt.

Efallai y gallwn ystyried y taliad hwn os cafodd ei wneud, drwy gytundeb â'r rhiant â gofal, am un o'r rhesymau canlynol:

- er mwyn talu morgais neu fenthyciad a gymerwyd i brynu neu dalu am atgyweiriadau neu welliannau hanfodol i'r cartref ble mae'r plentyn yn byw, ac sydd wedi ei sicrhau yn erbyn y cartref hwnnw
- er mwyn talu rhent neu dreth cyngor am y cartref ble mae'r plentyn yn byw
- er mwyn talu am nwy, dŵr neu drydan ar gyfer y cartref ble mae'r plentyn yn byw
- er mwyn gwneud atgyweiriadau hanfodol i system wresogi neu strwythur y cartref ble mae'r plentyn yn byw.

Os yw'r rhiant dibreswyl yn rhoi arian yn rheolaidd i'r rhiant â gofal am unrhyw reswm arall – fel talu biliau bob mis – yna dylai'r ddau riant ystyried newid sut maent yn trefnu eu cynhaliaeth. Er enghraifft, gall rhieni wneud trefniadau preifat heb orfod defnyddio'r CSA. Cewch fwy o wybodaeth drwy gysylltu ag Opsiynau Cynhaliaeth Plant. Gallwch fynd i'w gwefan yn **www.cmoptions.org** neu gallwch eu ffonio ar **0800 988 0988** neu **0800 988 9888** (ffôn testun). Gallwch ofyn am gael siarad Cymraeg.

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad y CSA?

Os byddwch yn credu bod y cyfrifiad cynhaliaeth plant yn anghywir neu nad yw'n gywir mwyach, gallwch ofyn i ni edrych arno eto.

Byddwn yn adolygu'r cyfrifiad. Os byddwn yn gweld ei fod yn anghywir, byddwn yn ei newid. Os na allwn ei newid, byddwn yn dweud pam.

Byddwn yn anfon llythyr atoch yn egluro ein penderfyniad gwreiddiol a byddwn yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych amdano. Os byddwch yn credu bod ein penderfyniad i newid eich cynhaliaeth plant neu ei gadael fel y mae yn anghywir, dylech ffonio neu ysgrifennu atom a dweud pam wrthym. Bydd y cyfeiriad ar gyfer ysgrifennu atom neu'r rhif ffôn ar gyfer ein ffonio yn y llythyr a anfonir atoch.

Os ydym wedi penderfynu lleihau neu gynyddu eich taliad, gallai ddechrau o'r un dyddiad a phryd dechreuodd eich cynhaliaeth plant, cyn belled â'ch bod wedi gofyn i ni adolygu eich cyfrifiad o fewn un mis i bryd dywedwyd wrthych gyntaf am faint yw'ch cynhaliaeth plant. Yn yr amgylchiadau hyn:

- efallai y bydd yn rhaid i'r rhiant dibreswyl wneud taliadau ychwanegol, neu
- efallai y bydd yn rhaid i'r rhiant â gofal dalu rhywfaint o'r gynhaliaeth plant a gawsant yn ôl.

Os ydym wedi ail edrych ar eich cyfrifiad a'ch bod yn anghytuno â'n penderfyniad diwygiedig, gallwch apelio yn ei erbyn. Rhaid i chi wneud hyn o fewn mis o gael llythyr gennym yn dweud wrthych am y penderfyniad diwygiedig.

Os ydych eisiau gwybod mwy am ofyn i ni edrych ar ein penderfyniad eto neu apeilo yn erbyn ei penderfyniadau, dylech gael copi o'n taflen *Sut gallaf apelio yn erbyn penderfyniad cynhaliaeth plant?* (CSL307W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion.

## Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sy'n rhaid i mi ddweud wrth y CSA amdanynt?

Os bydd amgylchiadau'r naill riant yn newid, gall olygu y bydd angen newid y swm sy'n rhaid ei dalu. Felly dylech ddweud wrthym os oes newid i unrhyw wybodaeth a roddoch i ni er mwyn gweithio allan cynhaliaeth plant, fel swm yr incwm mae'r rhiant dibreswyl yn ei gael.

Yn enwedig, os mai chi yw'r rhiant dibreswyl, **rhaid** i chi ddweud wrthym os:

- bydd eich cyfeiriad yn newid (**rhaid** i chi ddweud wrthym am hyn o fewn 7 diwrnod o'r newid)
- ydych yn talu cynhaliaeth plant drwy orchymyn didynnu o enillion a'ch bod yn gadael eich swydd. **Rhaid** i chi ddweud wrthym:
  - enw a chyfeiriad eich cyflogwr newydd (os o gwbl)
  - faint y disgwyliwch ei ennill, a'ch
  - rhif cyflogres (os o gwbl).

Os mai chi yw'r rhiant â gofal, **rhaid** i chi ddweud wrthym os oes newid i'r:

- nifer o blant sy'n byw gyda chi ac sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer, neu
- nifer y nosweithiau mae plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl yn rheolaidd.

Os byddwch yn methu â rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, neu os byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni y gwyddoch sy'n ffug, gallwn fynd a chi i'r llys a gallech gael dirwy o hyd at £1,000. Mae hyn yn gymwys i unrhyw berson neu gorff sy'n ofynnol iddynt, yn ôl y gyfraith, i roi gwybodaeth – fel cyflogwyr a chyfrifwyr yn ogystal â rhieni.

Ni fydd pob newid mewn amgylchiadau yn golygu y byddwn angen newid y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu. Efallai na fyddwn yn newid swm y gynhaliaeth plant os bydd y newid i incwm wythnosol net rheolaidd y rhiant dibreswyl yn llai na 5%.

# Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth?

Os ydych eisiau gwybod mwy am gynhaliaeth plant a sut rydym yn ei gweithio allan, ewch i'n gwefan yn **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**. Gallwch lawr-lwytho ein taflenni o'r wefan a hefyd gweld faint allai cynhaliaeth plant fod yn eich sefyllfa chi, drwy ddefnyddio ein cyfrifydd ar-lein. Canllaw yn unig yw'r cyfrifydd, ac ni fyddwn yn cadw unrhyw wybodaeth a roddwch wrth ei ddefnyddio.

Os byddwch am siarad gyda rhywun am eich achos, dylech ffonio'r rhif ar ochr dde top y llythyr diwethaf a dderbynioch gennym. Hwn yw rhif y swyddfa sy'n delio â'ch achos. Neu, gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091** sydd ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os nad oes gennych achos gyda ni neu os na allwch ddod o hyd i lythyr diweddar, gallwch ffonio'n llinell gymorth genedlaethol. Ni fydd gan y person sy'n cymryd yr alwad eich manylion personol ac felly ni allant ateb cwestiynau penodol am eich achos. Fodd bynnag, gallant eich helpu gydag unrhyw beth cyffredinol sy'n ymwneud â chynhaliaeth plant. Gallant hefyd roi rhif ffôn y swyddfa sy'n delio â'ch achos os byddwch am ofyn cwestiynau penodol.

Gallwch ffonio'r llinell gymorth genedlaethol ar **0845 713 3133** o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn. Neu, gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091** sydd ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Sicrhewch fod eich Rhif Yswiriant Gwladol wrth law pan fyddwch yn ffonio.

# Sut gall achos cynhaliaeth plant symud yn ei flaen

Mae'r diagram hwn yn dangos sut y gall achos cynhaliaeth plant symud yn ei flaen. Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar ran o'r broses a amlygir yma.

### Gwybodaeth a chyfarwyddyd

Gall y CSA ddarparu gwybodaeth am sut mae'r broses yn gweithio, beth fydd angen i rieni ei wneud a beth allai fod yn swm derbyniol o gynhaliaeth yn eu hachos hwy.

### Gwneud cais

Bydd achos yn cychwyn yn swyddogol pan fydd rhiant yn gwneud cais i ni drefnu taliadau cynhaliaeth plant.

**Os bydd newid ym mywyd y naill riant neu'r llall, gall hyn effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant sydd raid ei dalu, gallwn ail edrych ar eich achos – felly rhowch wybod i ni.**

### Casglu gwybodaeth a chyfrifo

Er mwyn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylid ei dalu, mae'n angenrheidiol i ni gasglu gwybodaeth bwysig. Byddwn yn gofyn i'r ddau riant ddarparu gwybodaeth benodol. Pan fyddwn wedi cael hyn, byddwn yn gweithio'r gynhaliaeth plant allan.

### Talu

Bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r swm a gytunwyd ar y dyddiad y cytunwyd ac yn y ffordd a gytunwyd. Gall hyn fod yn uniongyrchol i'r rhiant â gofal, neu i ni. Byddwn wedyn yn pasio'r taliadau ymlaen.

### Gorfodi

Os na wneir taliadau ar amser, gallwn gymryd camau i orfodi taliadau.

Efallai y caiff rhai galwadau eu recordio er mwyn i ni gadw golwg ar ein gwasanaethau a hyfforddi staff.

## Gwasanaethau ffôn testun

Os oes gennych anawsterau gyda siarad neu glywed, mae gwasanaeth ffôn testun ar gael ar **0845 713 8924**. Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg ar ffôn testun hefyd – y rhif yw **0845 713 8099**.

Mae ffôn testun ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd i siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth. **Nid** yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

## Ieithoedd eraill

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun neu un a ddarperir gennym ni.

## Costau ffonio

Ni ddylai galwadau o linellau daear BT i rifau **0845** gostio mwy na 4c y munud. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor. Gall galwadau o ffôn symudol gostio hyd at 40c y munud, felly dylech gysylltu â darparwr eich gwasanaeth i gael gwybod faint yw cost y galwadau hyn.

## Gwybodaeth ar ffurfiau eraill

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn Braille ac ar dâp sain. Gallwch gael gwybodaeth ar y ffurfiau hyn ar-lein neu drwy gysylltu â'n llinellau cymorth.

Mae gennym hefyd fersiynau print bras o'r daflen hon sydd ar gael i chi ei lawr-lwytho o'n gwefan, sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**.

# Ein taflenni

**Beth yw cynhaliaeth plant a sut mae'n effeithio arnaf i?**
(Cyfeirnod: CSL301W) I bob rhiant

**Sut gallaf gwyno am y gwasanaeth a gaf gan yr Asiantaeth Cynnal Plant?**
(Cyfeirnod: CSL308W) I bob rhiant

**Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?**
(Cyfeirnod: CSL303W) I bob rhiant

**Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn gwadu bod yn rhiant i blentyn?**
(Cyfeirnod: CSL304W) I bob rhiant

**Sut gallaf apelio yn erbyn penderfyniad cynhaliaeth plant?**
(Cyfeirnod: CSL307W) I bob rhiant

**Mae fy achos yn symud i'r cynllun cynhaliaeth plant a gyflwynwyd yn 2003 – beth fydd yn newid?**
(Cyfeirnod: CSL310W) I unrhyw riant y mae eu hachos yn symud i'r cynllun cyfredol

**Sut mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn defnyddio ac yn storio gwybodaeth?**
(Cyfeirnod: CSL311W) I bob rhiant

**Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant?**
(Cyfeirnod: CSL305W) I rieni dibreswyl

**Sut byddaf yn cael cynhaliaeth plant?**
(Cyfeirnod: CSL314W) I rieni â gofal

**Pa gamau gall yr Asiantaeth Cynnal Plant eu cymryd os na fydd rhieni'n talu?**
(Cyfeirnod: CSL306W) I bob rhiant

# Geirfa

## Amrywiad

Gall amrywiad ddigwydd pan ofynnwch i ni ystyried ffactorau eraill – fel costau ychwanegol y mae'n rhaid i'r rhiant dibreswyl eu talu i ymweld â'r plentyn. Rydym yn defnyddio amrywiadau yn y cynllun presennol. Maent yn disodli 'cyfarwyddiadau gwyro' yr oeddem yn eu defnyddio yn yr hen gynllun. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau pwysig rhwng amrywiadau a chyfarwyddiadau gwyro. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cyfeirio at y rheolau am y ffactorau y byddwn yn eu hystyried.

## Apêl

Y broses o ofyn i dribiwnlys annibynnol edrych ar eich achos os nad ydych yn fodlon â'r penderfyniad a wnaethom.

## Budd-dal Plant

Taliad rheolaidd a wneir i unrhyw un sy'n magu plant. Fe'i telir am bob plentyn sydd:

- o dan 16 oed
- o dan 19 oed (dan 20 oed mewn rhai achosion) ac sydd mewn addysg llawn amser yn dilyn cwrs nad yw'n uwch na Safon Uwch neu safon gyfatebol neu yn dilyn rhaglen a ariennir gan y Llywodraeth, neu
- yn 16 neu 17 mlwydd oed ac sydd newydd adael yr ysgol ac wedi cofrestru ar gyfer gwaith neu hyfforddiant gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd neu Gyrfa Cymru neu rywbeth tebyg.

## Budd-dal yn ymwneud ag incwm

Ym mhob un o daflenni'r CSA, gall budd-dal yn ymwneud ag incwm olygu Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

## Cynhaliaeth plant

Arian a delir gan y rhiant dibreswyl i'r rhiant â gofal i helpu i dalu am gostau byw eu plentyn o ddydd i ddydd.

## Gorchymyn didynnu o enillion

Un o'r ffyrdd y byddwn yn ei ddefnyddio fel arfer er mwyn trefnu taliadau os yw'r rhiant dibreswyl yn gyflogedig. O dan orchymyn didynnu o enillion, byddwn yn gofyn i gyflogwr y rhiant dibreswyl gymryd cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o enillion y rhiant dibreswyl a'i hanfon atom.

Gallwn hefyd drefnu gorchymyn didynnu o enillion os yw'r rhiant dibreswyl yn gyflogedig a'u bod heb gadw at ddulliau talu eraill neu os byddant wedi methu â chytuno ar ddull talu.

## Incwm wythnosol net

Swm yr incwm (cyflog fel arfer) sy'n weddill ar ôl tynnu pethau fel treth incwm, Yswiriant Gwladol a thaliadau i mewn i gynllun pensiwn. Gall bonysau a chomisiwn hefyd gyfrif fel cyflog. Fel arfer nid ydym yn cyfrif pethau fel difidendau a delir i gyfarwyddwr cwmni cyfyngedig, oni fydd y rhiant â gofal yn gofyn i ni eu hystyried.

Rydym yn cyfrif Credyd Treth Gwaith fel incwm os yw enillion y **rhiant dibreswyl** yn fwy nag enillion eu partner. Os bydd enillion y rhiant dibreswyl ac enillion y partner yr un fath, byddwn yn cyfrif hanner y Credyd Treth Gwaith yng nghyfrifiad y gynhaliaeth plant. Ni fyddwn yn cyfrif Credyd Treth Gwaith fel incwm os yw enillion y rhiant dibreswyl yn llai nag enillion eu partner.

## Penderfyniad cynhaliaeth ddiffyg

Os na fydd y rhiant dibreswyl yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio cynhaliaeth plant allan, gallwn wneud penderfyniad cynhaliaeth ddiffyg. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar 'gyfradd ddiffyg' hyd nes y rhoddant y wybodaeth sydd ei hangen arnom.

## Plentyn

At ddibenion cynhaliaeth plant, mae plentyn yn golygu unrhyw un sydd o dan 16 oed, neu rywun sydd rhwng 16 a 19 oed:

- sydd ddim nawr, nac erioed wedi bod yn briod neu mewn perthynas sifil, ac
- sydd mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gall rhywun o dan 19 oed gael eu hystyried fel plentyn at ddibenion cynhaliaeth plant hyd yn oed os ydynt mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

## Rhiant â gofal

Y rhiant neu'r gofalwr sy'n byw gyda'r plentyn fel arfer ac sydd felly yn talu am y rhan fwyaf o gostau byw y plentyn o ddydd i ddydd. Mewn rhai achosion gall fod yn nain, taid, gwarcheidwad neu'n aelod arall o'r teulu – sef y 'person â gofal', yn hytrach na'r rhiant â gofal.

## Rhiant dibreswyl

Y rhiant nad yw yn byw gyda'r plentyn fel arfer.

Mae taflenni'r CSA hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, mewn Braille ac ar dâp sain.

Gallwch gael unrhyw o'r taflenni hyn:

- trwy ffonio **0845 713 3133** (mae'r llinell ar agor o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn)
- trwy ffonio'r Uned Gymraeg ar **0845 713 8091** (mae'r llinell ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
- trwy ddefnyddio ffôn testun ar **0845 713 8924**, neu
- o'n gwefan sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**

Ble rhoddir rhifau ffôn testun, mae'r rhain ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd i siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth. Nid yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

CSL303W
Hydref 2009
(h) Asiantaeth Cynnal Plant
Gwasanaeth a ddarperir gan y Comisiwn
Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant
ISBN: 978-1-84763-546-4
Cyf COI: 296094